# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Mawrth 13eg 2019.

**Presennol.**

Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng C.Edwards,Cyng G.Jones,

Cyng P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau**

Cyng C.Dixon,Cyng G.Hughes.

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 13eg Chwerfor 2019.**

Cynnigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Materion yn codi-nid ar yr agenda.**

Mae'r Cyngor wedi derbyn ad-daliad o £185.16 gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ymwneud a gwaith trydanol wrth osod y diffibrilydd.

**Cynghorydd Sir.**

Bydd Cyngor Gwynedd yn codi treth cymunedol 5.8% am y flwyddyn 2019/20, bydd torriadau arian o £5 miliwn ym meysydd eraill o gyllideb y Cyngor.

Cyhoeddodd Cyng Jenkins ei fod yn ymddiswyddo o'i swydd yn y cabinet.

**Biniau halen.**

Oherwydd y pryderon a godwyd ynghylch y pwnc hwn yn ystod cyfarfodydd blaenorol y cyngor, bydd y Clerc yn cyfarfod â chynrychiolwyr Cyngor Gwynedd ar Fawrth 22ain i drafod y sefyllfa

**Materion ariannol.**

**Cyson Banc: Chwerfor 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn y Banc ar ddechrau'r Mis:** | **£4917.47** |
| **Derbyniwyd:** | |
| **Dim** | |
| **Taliadau:** | |
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Yn y banc diwedd mis** | **£4817.17** |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor.

**Rhoddion ariannol i'r gymdeithas.**

Yn dilyn trafodaeth penderfynodd y cynghorwyr ddosbarthu rhoddion ariannol o fewn y gymuned fel a ganlyn;

| | |
|---|---|
| Neuadd y pentref | £300 |
| Sioe y Ganllwyd | £100 |
| Capel Libanus | £100 |

**Llythyrau & E-bost.**

Jill Evans CND Cymru.

Ar ôl trafod cynnwys e-bost a dderbyniwyd gan Jill Evans ynghylch gwaredu gwastraff niwclear yng Nghymru, roedd y cyngor yn cefnogi'r

safbwyntiau a gynhwysir yn ei e-bost a dylai'r cyngor wrthwynebu unrhyw gynlluniau o'r fath.

Clerc i gysylltu hefo’r sefydliad er mwyn trowsglwyddo barn y cyngor.

**Un llais Cymru.**

Mae’r cyngor wedi penderfynu ail-ymuno a Un Llais Cymru am y flwyddyn 2019/20.

**Heddlu Gogledd Cymru.**

Trafodwyd ymateb yr heddlu ynglyn a phroblemau gwrth gymdeithasol yn ardal Coed y Brenin, Afonwen a.y.b.

Bydd y cyngor yn monitro’r sefyllfa yn yr wythnosau nesaf cyn ymateb ymhellach.

**Unrhyw fater arall.**

Bydd cyfarfod blynyddol y cyngor yn cael ei gynnal ar nos Fercher Mai 8fed 2019.

Cyng Edwards yn tynnu sylw’r cyngor i broblemau i ymwneud a “rhodidendrons” ar y ffordd Newydd rhwng Cae Mawr a Garreg Garw y Ganllwyd.

Clerc i gysylltu a’r adran priffyrdd.